

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch Cyllid Cymru

Gorffennaf 2014

Mae Cyllid Cymru yn gwmni cyhoeddus a grëwyd yn 2001 er mwyn darparu cyllid i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae'n is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Lywodraeth Cymru ac mae'n atebol i mi fel Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Roeddwn yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor Cyllid i gynnal ymchwiliad i weithrediad presennol Cyllid Cymru a'i rôl yn y dyfodol yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2013.

Roedd yn ymchwiliad arbennig o amserol wrth inni wynebu rownd newydd o arian strwythurol Ewropeaidd a'r amodau anodd economaidd parhaus sy'n wynebu busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod cwmnïau yng Nghymru yn cael y cymorth busnes gorau posibl a bod cyllid ar gael er mwyn iddynt allu tyfu a chreu swyddi.

Rwyf wedi amlinellu isod fy ymateb i argymhellion unigol y Pwyllgor.

Mae Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad i'w gweld isod:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

1. Bod Llywodraeth Cymru yn cymryd yr awenau wrth bennu maint y bwloch mewn cyllid rhwng banciau a busnesau bach yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr amcangyfrifon a wnaed gan yr Athro Dylan Jones-Evans drwy weithio gyda chyrrff fel Cymdeithas Bancwyr Prydain a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau er mwyn gwella data ar gymorth ariannol i fusnesau sy'n benodol i Gymru. Yna dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i gynllunio ymateb Llywodraeth Cymru i unrhyw fwloch mewn cyllid. Fodd bynnag, mae angen i bob rhanddeiliad gydnabod mai dim ond cyfraniad bach y gall Cyllid Cymru ei wneud i ymdrin â'r bwloch mewn cyllid.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru yn cydweithio i wella'r gwaith o rannu gwybodaeth am y bwloch mewn cyllid er mwyn datblygu offerynnau cyllido gwell ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, mae'n bwysig datblygu ymhellach ein perthnasoedd a'n gweithgareddau casglu data â Banc Lloegr, Banc Busnes Prydain, Cymdeithas Fancio Prydain, yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr a chyrrff perthnasol eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu adnodd penodedig yn ei thîm Mynediad at Gyllid a fydd yn gweithio gyda chyrrff mewnol ac allanol sy'n bodoli eisoes. Prif bwrpas yr adnodd fydd dod i ddeall y Bwlch mewn Cyllid yng Nghymru'n well. Bydd yn parhau i

fonitro data sydd ar gael ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu polisïau a chynnyrch yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

2. Bod pob cangen o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am fusnes yn gweithredu mewn ffordd gydgyssylltiedig er mwyn cefnogi busnesau llai. Dylai hyn gynnwys cydweithio â banciau er mwyn gwella dogfennau cais a chynlluniau busnes. Dylid hefyd gyflwyno system glir ar gyfer atgyfeirio'r busnesau hynny y gwrthodir rhoi cyllid iddynt gan y banciau neu Cyllid Cymru. Dylid rhoi arwyddion clir a chynnar i fusnesau o'u cymhwysedd am gymorth gan raglenni unigol y llywodraeth.

Ymateb: Derbyn

Rwyf wedi comisiynu Robert Lloyd Griffiths i gynnal adolygiad i edrych sut y gellid sicrhau bod cymorth anariannol Llywodraeth Cymru yn ategu ac yn cefnogi'r cymorth ariannol sydd ar gael. Ynghyd â'r adolygiadau a gwblhawyd eisoes gan yr Athro Dylan Jones Evans, bydd y gwaith hwn yn cynnig argymhellion pellach ar sut i wella ein cymorth i fusnesau llai.

Rwyf hefyd wedi cyfarwyddo fy swyddogion i ddechrau gwaith ar gynllun peilot mewn partneriaeth â nifer o fanciau blaenllaw'r stryd fawr. Bwriad y cynllun fydd rhoi dull cyfeirio ar waith a fydd yn sicrhau bod busnesau sy'n cael eu gwrthod gan y banc yn cael eu cyfeirio'n ôl at Lywodraeth Cymru am gymorth a chanllawiau. Yn yr un modd, bydd busnesau sy'n cael eu gwrthod am gyllid gan Cyllid Cymru hefyd yn cael eu cyfeirio'n ôl at Lywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol – Mae'n debygol y bydd goblygiadau o ran adnoddau a bydd angen eu hystyried.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

3. Bod unrhyw newidiadau a wneir i Cyllid Cymru yn adeiladu ar ei sgiliau a'i seilwaith presennol, ac nad ydynt yn niweidio'r enw da y mae wedi'i ddatblygu.

Ymateb: Derbyn

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Cyllid Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn adeiladu ar sgiliau a seilwaith presennol y cwmni gan roi sylw dyledus i enw da'r sefydliad, ac yn sicrhau y caiff y newidiadau eu rhoi ar waith mewn modd sy'n bodloni telerau cylch gwaith Cyllid Cymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

4. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro nodau a chylch gwaith Cyllid Cymru. Dylai'r rhain amlinellu'r cydbwysedd rhwng ei ddwy rôl sef cyflawni elw masnachol a chyfrannu at ddatblygu economaidd. Ni ddylai'r amcanion fod yn rhy ragnodol, ond dylent alluogi Cyllid Cymru i gynnal strwythur hyblyg a all gael ei deilwra i reoli cronfeydd newydd. Dylai hefyd gael ei weld yn gyfle i fireinio diben Cyllid Cymru a chyfleu hyn i bob rhanddeiliad.

Ymateb: Derbyn

Mae fy swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda Cyllid Cymru i adolygu a diwygio cylch gwaith y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn ategu'n gliriach bolisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r economi. Bydd y cylch gwaith diwygiedig yn rhoi digon o hyblygrwydd i'w alluogi i reoli cronfeydd newydd ac addasu i newidiadau yn yr amodau economaidd mewn blynyddoedd i ddod.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

5. Bod Cyllid Cymru yn destun lefelau tebyg o graffu i gyrrff cyhoeddus eraill a gaiff arian cyhoeddus. Ni ddylai hyn effeithio ar annibyniaeth Cyllid Cymru wrth wneud penderfyniadau buddsoddi. Dylai Cyllid Cymru gyflwyno ei adroddiad blynyddol a chyfrifon i bwyllgor perthnasol o'r Cynulliad er mwyn craffu arnynt bob blwyddyn.

Ymateb: Derbyn

Yn ogystal â'r rheolaethau Adrannol sy'n bodoli eisoes, yn y dyfodol bydd Cyllid Cymru yn ddarostyngedig i lefel uwch o graffu allanol. Er enghraifft, bydd yn ofynnol i Cyllid Cymru gyflwyno adroddiad a chyfrifon blynyddol a gwybodaeth am ei berfformiad i bwyllgor perthnasol o'r Cynulliad er mwyn iddo graffu arnynt bob blwyddyn.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

6. Bod Cyllid Cymru yn cynnal adolygiad o'i arferion gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni i fusnesau bach a chanolig. Er mwyn llywio hyn, argymhellwn fod arolwg annibynnol o fusnesau bach a chanolig yn cael ei

gomisiynu er mwyn pennu ymwybyddiaeth o'r farchnad a phryderon ynghylch Cyllid Cymru.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n falch bod Cyllid Cymru eisoes wedi dechrau cynnal nifer o adolygiadau mewnol o'i arferion gwaith o ganlyniad i'r Adroddiad Cyfnod 2 ar Fynediad at Gyllid a gynhaliwyd gan yr Athro Dylan Jones Evans. Bydd y gwaith hwn yn parhau gyda chymorth gan fy swyddogion a fydd yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad Cyllid Cymru.

Rwyf hefyd wedi gofyn i'm swyddogion adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill yn Cyllid Cymru sef cynnal arolwg o fusnesau bach a chanolig i weld faint o ymwybyddiaeth sydd yn y farchnad. Fel rhan o hyn, rwy'n awyddus i sicrhau bod adborth ar brofiad cwsmeriaid yn sail i'r adolygiad. I'r perwyl hwn, byddwn yn sicrhau bod adolygiadau ar hap o wasanaethau i gwsmeriaid yn cael eu cynnal fel proses barhaus.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

7. Bod Cyllid Cymru yn rhoi eglurhad pellach i fusnesau o'r strategaethau ar gyfer pob un o'i gronfeydd. Dylai hyn egluro, er bod Cyllid Cymru yn ceisio pontio methiant yn y farchnad o ran benthyca gan fanciau, ei fod hefyd yn gorfod gwneud elw masnachol er mwyn rhoi cyfrif am y risgiau y mae'n eu cymryd wrth fenthyca. Dylai'r cyfraddau llog nodweddiadol a'r ffioedd y mae'n eu codi ar fenthyciadau, ynghyd â'i bolisïau benthyca eraill, fod yn fwy tryloyw a chael eu rhoi i fusnesau cyn iddynt ystyried gwneud cais.

Ymateb: Derbyn

Bydd Cyllid Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i fusnesau am strategaethau a nodau pob un o'i gronfeydd. Bydd polisïau a ffioedd cyfraddau llog pob cronfa, yn ogystal â pholisïau benthyca eraill, i'w gweld yn glir ar wefan Cyllid Cymru ac mewn gwybodaeth a gaiff ei darparu i fusnesau. Byddwn hefyd yn annog rhagor o ddefnydd o astudiaethau achos.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

8. Wrth ddylunio cronfeydd yn y dyfodol, fod Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru yn sicrhau bod digon o hyblygrwydd i addasu cyfraddau llog a manteisio ar eithriadau cymorth gan y wladwriaeth. Yna, ar y cyd â

Llywodraeth Cymru, dylid cynllunio ar gyfer costau gostwng cyfraddau llog o bosibl er mwyn sicrhau bod digon o gymorth ariannol ar gael.

Ymateb: Derbyn

Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda Cyllid Cymru i sicrhau bod cronfeydd yn y dyfodol yn cael eu datblygu mewn modd a fydd yn cynnig digon o hyblygrwydd i addasu cyfraddau llog a manteisio ar eithriadau cymorth gan y wladwriaeth.

Mae Cyllid Cymru wedi dechrau trafodaethau cynnar gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru am gronfa ddilynol i JEREMIE a byddant yn ei dylunio gan gymryd sylw llawn o'r argymhelliad penodol hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

9. Bod Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru yn adolygu eu strategaeth ar gyfer cyfathrebu â busnesau. Dylid datblygu partneriaethau â banciau, cyfryngwyr a grwpiau sy'n cynrychioli busnesau fel y gellir marchnata cronfeydd newydd yn effeithiol.

Ymateb: Derbyn

Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf i wella cyfathrebu â busnesau a phartneriaethau gyda grwpiau sy'n cynrychioli busnesau. Yn dilyn cyfarfodydd diweddar a gefais gyda banciau, mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r prif fanciau yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Atgyfeirio Banciau peilot.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Cyllid Cymru i'w helpu i ddatblygu strategaethau cyfathrebu a marchnata cliriach. Bydd y pwyslais ar greu proses atgyfeirio ymarferol mewn partneriaeth â'r banciau, cyfryngwyr a grwpiau busnes eraill. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn modd sydd wedi'i gydgysylltu'n llawn gyda Busnes Cymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

10. Fodd bynnag, ni ddylai'r rhwydweithiau hyn gael eu hystyried yn 'borthgeidwaid' mynediad at Cyllid Cymru. Felly, argymhellir bod Cyllid Cymru yn gwella ei allu i gyfathrebu'n uniongyrchol â darpar fenthycwyr, yn enwedig busnesau bach.

Ymateb: Derbyn

Bydd Cyllid Cymru yn edrych ar ffyrdd o wneud hyn gan weithio ar y cyd â banciau a Busnes Cymru i ddechrau. Bydd Cyllid Cymru yn rhoi sylw i'r mater i ddechrau drwy adolygu a gwella ei allu ar y we.

Mae Cyllid Cymru wedi dechrau cynnal cyfres o deithiau sydd wedi'u hanelu at fusnesau yn bennaf, ond maent hefyd yn gwahodd cyfryngwyr eraill iddynt. Mae saith digwyddiad wedi'u cynllunio ar gyfer mis Gorffennaf a byddant yn parhau i ddatblygu a mireinio eu hymdrechion i farchnata. Yn ogystal, maent hefyd wrthi'n gweithio ar adnewyddu eu gwefan.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

11. Bod Cyllid Cymru yn mabwysiadu'r un lefelau o dryloywder o ran ei berfformiad â'r hyn a welir mewn cyrff cyhoeddus eraill. Dylai'r adroddiadau monitro a gwerthuso y mae'n eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill gael eu cyhoeddi. Hefyd dylid darparu gwybodaeth ar ei wefan am berfformiad buddsoddiadau, creu swyddi, cyllid a meini prawf dyfarnu. Dylai gwybodaeth am berfformiad hefyd fod wrth wraidd adroddiad blynyddol a chyfrifon newydd a manylach. Cred y Pwyllgor yn gryf, er y bydd y fath dryloywder yn anochel yn arwain at beth beirniadaeth ar adegau, bydd hefyd yn ffordd ardderchog o ddangos llwyddiannau Cyllid Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Cyllid Cymru i wella ansawdd y data perfformiad y mae'n ei ddarparu'n barhaus ac i werthuso ei berfformiad yn barhaus. Bydd gwybodaeth am berfformiad yn fwy tryloyw a hygyrch hefyd drwy wefan Cyllid Cymru ac adroddiad a chyfrifon blynyddol.

Bydd y wybodaeth newydd yn canolbwyntio ar berfformiad buddsoddi, creu swyddi, cyllid a meini prawf dyfarnu, ar yr un pryd â sicrhau bod gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif a gwybodaeth gyfrinachol am gleientiaid yn cael ei diogelu. Bydd Cyllid Cymru hefyd yn gwella'r ffordd y mae'n cyflwyno ei ddata am berfformiad yn seiliedig ar adborth gan y gymuned fusnes ehangach.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Edwina Hart MBE CStJ AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth